

Cystadleuaeth 76

Parodi

1. Cloch y Llan sef Myfanwy Roberts, Dol Erw, 23 Llwynbrith, Llanrwst, Sir Conwy.
LL26 0HH
2. Dwynwen sef Gaenor Mai Jones, Coed y Brenin, Pentre'r Eglwys,
Pontypridd
3. Penwgin sef Arwel Emlyn Jones, Rhuthun

Eisteddfod Powys Bro Ddyfi.

76. Parodi - unrhyw gân o gynrychiadau Cwmni Theatr Maldwyn.

Ffugenw : Cloch y Llan.

Parodi ar - Ar Noson Fel Hon.

Ar Dd'wrnod Fel Hwn.

Ar dd'wrnod fel hwn, fe seinir y clychau drwy'r llan,
Fe roddir ein bendith ar gwlwm a syrthiodd i'ch rhan,
Mae 'na gyfle nawr i roi ein sêl, nôl y sôn,
a bydd pawb yn eich cyfarch o Fynwy i Fôn.
Ar dd'wrnod fel hwn!

Cytgan :

Ar dd'wrnod fel hwn, codwn a chyfarch y priodfab a'i ferch,
a mynnwn ni godi ein gwydr i'ch serch,
Rhown sylw i'r ddeuddyn ar ddydd uno 'nghyd
ac estyn ein cariad i'r ddau, gwyn eich byd.
Mae nhw ar y ffordd i uno,
Mae nhw am briodi ill dau,
Mae nhw ar y ffordd i uno,
Mae nhw am briodi, priodi ill dau.

Ar dd'wrnod fel hwn, fe ddathlwn yr uniad yng nghyd.
Gosodwyd eich seiliau yn gadarn i herio y byd,
A nawr teimlwch y dorf yn gefn sydd o'ch plaid
yn barod i'ch helpu os byth y bydd rhaid.
Ar dd'wrnod fel hwn!

Cytgan.....

Ar dd'wrnod fel hwn, fe roddwn pob bendith i chwi,
Fe floeddiwn y neges, cyhoeddwn ein hapus gri,
Pan genir yr organ, y sain godith y tô,
a'r waedd am eich uniad yn llenwi y fro.
Ar dd'wrnod fel hwn!

Cytgan.....

